
Catherine Barr a Steve Williams

# STORI NEWID HINSAWDD




## Adnodd trawsgwricwlaidd

Mae Stori Newid Hinsawdd wedi'i hanelu at blant ysgolion cynradd. Mae'r llyfr yn adrodd hanes ein hinsawdd ar hyd llinell amser ddaearegol. Mae'r naratif ffeithiol, fyd-eang yn archwilio ffurfiant cychwynnol yr hinsawdd hyd at greu tanwyddau ffosil a'r newid hinsawdd sydd wedi'i achosi gan bobl heddiw. Mae'r llyfr yn hoelio sylw'r plant ar y ffyrdd y gallant helpu i arafu'r argyfwng hinsawdd hwn. Mae meysydd perthnasol y cwricwlwm yn cynnwys Llythrennedd a Rhifedd, Dyniaethau, Gwyddoniaeth, Technoleg Ddigidol a phynciau creadigol. Gellir darparu nifer o brosiectau STEAM gan ddefnyddio'r llyfr fel ysgogiad.

## Amcanion dysgu

Deall achosion ac effeithiau newid hinsawdd. Dysgu sut y gall pobl ledled y byd fynd i'r afael â'r materion.

## Pynciau trafod

**1.** Effaith tŷ gwydr a'r Chwyldro Diwydiannol

**2**. Ffermio a datgoedwigo

**3**. Ymholiad gwyddonol

**4**. Ymfudo

**5.** Cadwyni bwyd

**6**. Ynni adnewyddadwy

**7.** Gweithredu a newid




## Cwestiynau hanfodol

Beth yw achosion newid hinsawdd?

Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar ein byd?

Beth allwn ni ei wneud i leihau effeithiau newid hinsawdd?

## Syniadau sydd wedi'u hysbrydoli gan bwnc

### Effaith tŷ gwydr a'r Chwyldro Diwydiannol

Gan ddefnyddio'r llyfr fel ysgogiad, gall addysgwyr drafod sut mae llosgi tanwyddau ffosil yn ystod y Chwyldro Diwydiannol wedi arwain at fwy o effaith tŷ gwydr a newid hinsawdd sydd wedi'i achosi gan bobl.



## Ffermio a datgoedwigo

Gall addysgwyr archwilio’r modd y mae amaethyddiaeth yn achosi datgoedwigo a sut mae coed yn tynnu carbon deuocsid o'r aer. Natur difodiant a sut y gall colli cynefinoedd achosi difodiant. Gall y disgyblion ddatblygu sgiliau daearyddiaeth drwy archwilio lle mae datgoedwigo ar ei waethaf a datblygu sgiliau llythrennedd a TG trwy greu posteri neu daflenni perswadiol ar y rhesymau dros warchod coedwigoedd.

## Ymholiad gwyddonol

Gall addysgwyr drafod pwysigrwydd casglu tystiolaeth, yn enwedig am y tywydd a'r hinsawdd. Gall y disgyblion ddatblygu sgiliau rhifedd drwy gasglu gwybodaeth am y tywydd fel tymheredd, pwysedd aer, gorchudd cwmwl a dyfeisio ac adeiladu cynhwysydd glaw er mwyn casglu glaw.

## Ymfudo

Dyma gyfle i ddysgu plant am amrywiaeth a chydraddoldeb. Gall y myfyrwyr ddatblygu sgiliau llythrennedd trwy wneud bwrdd stori am sut y gall newid hinsawdd arwain at fudo ac adrodd y stori trwy lygaid teulu neu blentyn ifanc sy'n mudo.

## Cadwyni bwyd

Mae cadwyni a gweoedd bwyd yr Antarctig yn amrywiol ac mi fydd y disgyblion yn ymddiddori ynddynt. Gall y plant ddysgu sut mae'r haul yn ffynhonnell egni ar gyfer y cadwyni bwyd a sut mae ynni'n mynd drwy'r gadwyn cyn cyrraedd yr ysglyfaethwyr uchaf. Yna gallent ddefnyddio gweoedd bwyd er mwyn rhagweld effaith colli rhai rhywogaethau ar rywogaethau eraill er mwyn canolbwyntio ar gyd-ddibyniaeth.

## Ynni adnewyddadwy a chynaliadwy

Gall y plant archwilio’r gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy a dyfeisio eu melin wynt ynni adnewyddadwy neu felin ddŵr eu hunain. Gellir gwneud cylchedau trydanol syml gyda phaneli solar addysgol.

## Gweithredu a newid

Gan ddefnyddio'r taeniadau ar sut mae plant yn protestio er mwyn amddiffyn y blaned a sut y gallai dyfodol gwyrdd edrych, gall y myfyrwyr ddatblygu ymgyrch er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn. Gellir ysgrifennu caneuon, cerddi a dramâu er mwyn cefnogi eu syniadau a pherswadio eraill i helpu i amddiffyn y blaned ac arafu newid hinsawdd.

RILY
www.rily.co.uk

@catherine_barr
@catherinebarrbooks

@stevewills22
@stevewills22

